# POLISI A CHYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

**Adolygwyd y Polisi Ddiwethaf: Tachwedd 2024**

**Adolygiad Nesaf: Tachwedd 2025**

**(neu yn gynharach yn unol â diweddariadau i ddeddfwriaeth)**

## Gweledigaeth

Mae Hijinx yn arweinydd o ran cynhwysiant a chynyddu cynrychiolaeth pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig ar y llwyfan a'r sgrin. Mae cynaliadwyedd yn ganolog i'n hymarfer, ac rydym wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw, cynulleidfaoedd a'n planed.

Mae Hijinx yn cydnabod ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd na welwyd ei debyg a fydd, heb weithredu drastig, yn arwain at ganlyniadau na ellir eu gwyrdroi i ddynoliaeth. Rhaid cael newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau i amddiffyn ein hunain a'n planed at y dyfodol. Mae cysylltiad dwfn rhwng yr argyfwng hinsawdd ac anghyfiawnder cymdeithasol: y systemau cymdeithasol a gwleidyddol a achosodd i'r hinsawdd dorri i lawr yw'r un systemau sy'n creu a chadarnhau anhegwch, gwthio pobl i'r ymylon a chyfle anghyfartal i bobl o gwmpas y byd.

**Rydym am sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy, yn cefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a'n planed.** Rydym yn cydnabod bod llawer i'w ddysgu a gwelliannau sylweddol y gallwn eu gwneud i leihau a chyfyngu ar unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol.

Ein huchelgais yw dod yn garbon niwtral erbyn 2030.

## Polisi

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hagwedd at gynaliadwyedd ac mae'n cyfleu hyn yn glir i'n staff a'n gweithwyr llawrydd, i'n hactorion a chyfranogwyr, i'r cleientiaid a'r cyflenwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw ac i'n cynulleidfaoedd.

### Ein Gwerthoedd

Arweinir y polisi hwn gan werthoedd ein cwmni yn y ffyrdd canlynol:

- Didwylledd – rydym yn anelu i ymddwyn yn foesegol a chyfrifol.
- Uchelgais – rydym yn anelu i fod yn uchelgeisiol yn ein targedau cynaliadwyedd a dal ein hunain yn atebol.
- Tegwch – rydym yn cydnabod, trwy gymryd camau ystyrlon ar yr argyfwng hinsawdd ein bod hefyd yn creu cymdeithas fwy teg.
- Rhagoriaeth – rydym am gyflawni rhagoriaeth mewn ymarfer cynaliadwy a rhannu ymarfer gorau.
- Cymuned – rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb i'n cymuned i weithredu mewn ffordd gynaliadwy a chael effaith gadarnhaol ar y blaned.

### Deilliannau 2024-25

- Gosod cynaliadwyedd yn ganolog i'n gweithrediadau, cynllunio a llunio penderfyniadau.

- Hyrwyddo diwydiannau creadigol mwy cynaliadwy trwy rannu data ac ymarfer gorau a thrwy bartneriaethau strategol.
- Lleihau effaith amgylcheddol ein gweithgaredd yng Nghymru a'n gwaith teithio.

Rydym ar gychwyn ein taith, ond bydd y polisi hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn sicrhau y bydd Hijinx yn dod yn gwmni mwy ymwybodol a chyfrifol yn amgylcheddol.

## Ein Busnes

Hijinx ydym ni.

Ers dros 40 mlynedd mae Hijinx wedi bod yn rhan o wead bywyd diwylliannol Cymru.

Ni yw cwmni theatr cynhwysol Cymru, gan ymdrechu i gynyddu cynrychiolaeth a thegwch ar y llwyfan a'r sgrin i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig.

Rydym yn rhoi pobl ag anghenion dysgu ac awtistig yn ganolog i'n cynyrchiadau a'n hyfforddiant ac rydym wedi derbyn clod rhyngwladol am ein gwaith ac wedi ennill gwobrau.

Yn 2012 sefydlwyd Academi gyntaf Hijinx, llwybr proffesiynol arloesol. Yn awr gall oedolion ag anabledd dysgu a/neu oedolion awtistig yng Nghymru, sydd ag uchelgais i actio, gael mynediad at hyfforddiant galwedigaethol a chyflawni eu breuddwydion.

Mae ein cynyrchiadau yn ddewr, bywiog, anarchaidd a didwyll; wirioneddol gyda, gan ac yn deillio o'n hartistiaid. Rydym yn gweithio yn y ffordd hon oherwydd bod perfformiadau sy'n newid y ffordd yr ydym yn amgyffred y byd yn aros gyda ni am byth, ac yn y pen draw maen nhw'n creu newid. Rydym yn perfformio ein gwaith yng Nghymru, ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Rydym yn hyrwyddo ein hartistiaid, yn eu cynrychioli trwy Actorion Hijinx (asiantaeth gastio) a hwyluso eu cyflogaeth, gan sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth greadigol ac ymarferol gywir. Gan gynyddu cynrychiolaeth ar draws y sector a chefnogi newid. Ochr yn ochr â hyn, mae ein hyfforddiant cyfathrebu sydd wedi ennill gwobrau yn rhoi gwaith uniongyrchol i'n hartistiaid.

Trwy Pawb, ein gwaith ymgysylltu cymunedol yng Nghymru a thu hwnt, rydym yn cyrraedd 150 o bobl o 16 i 80 mlwydd oed bob wythnos mewn sesiynau trwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn gwybod bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gweithio, mae ein hadroddiad effaith cymdeithasol yn dangos y newid yr ydym yn ei greu, gan gynyddu hyder, hapusrwydd, annibyniaeth a dyhead; gan greu Enillion Cymdeithasol ar y Buddsoddiad o £5 am bob £1 a fuddsoddir, ac mae'n heffaith ehangach yn meithrin newid trwy ein partneriaid a'n cynulleidfaoedd.

Rydym wedi ymrwymo i greu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol, wedi eu creu gan ac ar gyfer y cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.

## Ein Heffeithiau

Rydym yn mesur ein heffeithiau ar draws y gweithgareddau craidd dyddiol, gweithgareddau cyson (e.e. Academi), ac ar sail bob yn brosiect, o'r syniad cyntaf, cynllunio a chaffael hyd at gyflwyno, cwblhau a gwerthuso.

Mae Hijinx wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol niweidiol ein gweithgareddau, yn neilltuol y rhai yn ymwneud â:

- Ein safleoedd: defnydd o ynni, defnydd o ddŵr a gwastraff.
- Ein cynyrchiadau theatr: deunyddiau, ynni a gwastraff. Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol os ydyn ni'n ymarfer a/neu yn perfformio yn yr awyr agored.
- Ein ffilmiau: deunyddiau, ynni a gwastraff. Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol os ydyn ni'n ffilmio yn yr awyr agored.
- Ein caffael: offer, deunyddiau defnyddiadwy, argraffu ac arlwyo.
- Ein teithio a chludiant: teithio busnes, teithio, cludiant. Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol pan fyddwn yn teithio yn genedlaethol a rhyngwladol.
- Ein digwyddiadau: defnydd o ynni, defnydd o ddŵr a gwastraff.

Mae Hijinx wedi ymrwymo i'w weithgareddau gael yr effaith amgylcheddol cadarnhaol mwyaf, yn neilltuol y rhai yn ymwneud â:

Defnyddio ynni adnewyddadwy

- Ailgylchu, ailddefnyddio neu ganfod diben arall i ddeunyddiau
- Cyfrannu at brosiectau bioamrywiaeth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddadwneud y difrod i'r amgylchedd naturiol
- Dylunio deallus i leihau'r defnydd o gynhyrchion defnyddiadwy

Mae Hijinx wedi ymrwymo i'w weithgareddau gael yr effaith cymdeithasol cadarnhaol mwyaf, yn neilltuol y rhai yn ymwneud â:

- Ymgysylltiad cymunedol
- Hyfforddiant a datblygu
- Cyfranogiad
- Partneriaethau

Mae Hijinx wedi ymrwymo i'w weithgareddau gael yr effaith economaidd cadarnhaol mwyaf, yn neilltuol y rhai yn ymwneud â:

- Cyflogaeth Gyfrifol (e.e. ymrwymiad i'r Cyflog Byw, polisïau addas i deuluoedd)
- Rhoi gwerth am arian
- Caffael moesegol ac ymrwymiad i'n heconomi leol a gweithio gyda chyflenwyr y mae eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn gyson â'n rhai ni
- Codi arian a nawdd moesegol – cael cyllid o Ymddiriedolaethau, Sefydliadau a busnesau cyfrifol neu wedi eu hardystio gan B Corp y mae eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn gyson â'n rhai ni

## Gweithredu

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, uwch reolwyr, staff, gweithwyr llawrydd, actorion, cyfranogwyr, contractwyr, cyflenwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid allanol i sicrhau ein bod yn monitro a chyfleu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein gweithgareddau.

- Mae gennym Hyrwyddwyr Gwyrdd sy'n sicrhau bod Cynaliadwyedd yn parhau yn flaenoriaeth ar draws y sefydliad.
- Mae cynaliadwyedd yn eitem sydd ar yr agenda bob tro yng nghyfarfodydd Tîm yr Uwch Reolwyr a'r Bwrdd.
- Cyflwynir adroddiadau cyson i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac maen nhw'n adolygu a chymeradwyo ein Cynllun Gweithredu blynyddol.
- Rydym yn rhoi adroddiad blynyddol i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Cefnogir y polisi gan Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (sydd ynghlwm isod). Mae'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar adolygiad o'n heffeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy ein monitro a mesur amgylcheddol a thrwy adborth o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Adolygir a diweddarir y polisi hwn yn flynyddol a chaiff ei gymeradwyo gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

## Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 2024-25

| GWEITHRED | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|
| **EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL** | | |
| Monitro effeithiau amgylcheddol trwy Offer Hinsawdd Creadigol ac ymwreiddio hyn ar draws y sefydliad | Pob un | Parhaus |
| Sefydlu Hyrwyddwyr Gwyrdd sy'n cyfarfod yn chwarterol i fonitro effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a bwydo argymhellion yn ôl i'r tîm | Hyrwyddwyr Gwyrdd | Erbyn Mawrth 2025 |
| Sicrhau bod cynaliadwyedd wedi ymwreiddio yn ein cynllun busnes a pholisïau allweddol eraill | Uwch Reolwyr | Parhaus |
| Cynnwys cynaliadwyedd fel eitem sydd ar yr agenda bob tro yng nghyfarfodydd Tîm yr Uwch Reolwyr a'r Bwrdd. | Uwch Reolwyr | Parhaus |
| Sicrhau bod yr holl ganolfannau creadigol presennol ac yn y dyfodol yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus | Cyfarwyddwr Academi/Pennaeth Pawb | Parhaus |
| Gwrthbwyso allyriadau carbon o hediadau gan ddefnyddio Regrow Borneo | Pennaeth Theatr | Parhaus |
| Pan fydd yn ymarferol, ystyried prynu cerbydau cwmni hybrid neu drydan sy'n cael llai o effaith amgylcheddol | Prif Weithredwr Dros Dro | Parhaus |
| Datblygu polisi teithio araf ac ystyried a ddylai Hijinx gofrestru gyda 'Climate Perks' i annog staff i ddewis dulliau teithio carbon isel | Prif Weithredwr Dros Dro | Erbyn Mehefin 2025 |
| Lleihau argraffu a llungopïo gan ddefnyddio mwy o atebion digidol | Pob un | Parhaus |
| Prynu dewisiadau effeithlon o ran ynni wrth gyfnewid offer technegol | Rheolwr Cynyrchiadau/Gweinyddwr | Parhaus |
| Dilyn Canllaw Digwyddiadau Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer Gŵyl Undod a digwyddiadau eraill perthnasol | Pob un | Parhaus |
| Sicrhau bod prosiectau theatr yn cadw at safonau ac argymhellion Llyfr Gwyrdd y Theatr | Theatr | Parhaus |
| Gofalu bod prosiectau ffilm yn cadw at ganllawiau ac argymhellion We Are Albert | Ffilm | Parhaus |
| Adolygu deunyddiau marchnata i ystyried effaith amgylcheddol a lleihau printio diriaethol | Marchnata | Erbyn Mehefin 2025 |
| Wrth ddarparu arlwyo, cynnwys dewisiadau iach, llysieuol, figan a heb glwten a dŵr yfed glân | Pob un | Parhaus |
| Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar blastigau untro. | Pob un | Parhaus |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu darpariaeth hyfforddi ar-lein ac adnoddau i leihau effaith hyfforddiant yn y cnawd | Datblygu Busnes | Erbyn Medi 2025 |
| Cyflwyno clyweliadau tapio eich hun pan fo'n bosibl | Castio | Parhaus |
| Sefydlu lleoliad ailgylchu ar gyfer plastigau meddal yn y swyddfa | Gweinyddwr | Erbyn Mawrth 2025 |
| **EFFEITHIAU ECONOMAIDD** | | |
| Dŵr yn cael ei gyflenwi gan Eden sydd wedi eu hardystio yn garbon niwtral ac yn gwrthbwyso eu hallyriadau CO2 | Gweinyddwr | Parhaus |
| Ymchwilio a chreu cronfa ddata o gyflenwyr lleol sydd wedi cofrestru â B Corp neu yn canolbwyntio ar leihau eu heffaith amgylcheddol | Gweinyddwr | Erbyn Medi 2025 |
| Codi arian a nawdd moesegol – cael cyllid o Ymddiriedolaethau, Sefydliadau a busnesau cyfrifol neu wedi eu hardystio gan B Corp y mae eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn gyson â'n rhai ni | Prif Weithredwr Dros Dro/Codi Arian | Parhaus |
| Dewis cyflenwyr lleol, moesegol neu wedi cofrestru â B Corp pan fydd yn bosibl | Pob un | Parhaus |
| Gwneud cais i ddod yn gyflogwr ag achrediad cyflog byw gwirioneddol | Prif Weithredwr Dros Dro | Erbyn Medi 2025 |
| Deunydd print yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr lleol gydag ardystiad FSA sydd â pholisi amgylcheddol ac yn defnyddio inc yn seiliedig ar ddŵr. Defnyddio papur wedi ei ailgylchu/neu y gellir ei ailgylchu bob amser | Marchnata | Parhaus |
| Rhoi i brosiectau bioamrywiaeth neu amgylcheddol lleol fel dull o leihau effaith niweidiol Hijinx ar fyd natur. | Prif Weithredwr Dros Dro | Erbyn Medi 2025 |
| Annog staff i ymuno â Chronfa Foesegol NYTH fel bod eu pensiwn yn cael ei fuddsoddi mewn ffyrdd moesegol a chynaliadwy | Prif Weithredwr Dros Dro | Erbyn Mehefin 2025 |
| **EFFEITHIAU CYMDEITHASOL** | | |
| Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i adolygu dewisiadau trafnidiaeth ym mhob un o Academïau Hijinx | Cyfarwyddwr yr Academi | Erbyn Medi 2025 |
| Canfod hyfforddiant Llythrennedd Carbon i staff a'r Bwrdd | Prif Weithredwr Dros Dro | Erbyn Mehefin 2025 |
| Cynnwys cynaliadwyedd mewn cytundebau partneriaeth | Uwch Reolwyr | Parhaus |
| Ystyried sut yr ydym yn cynnwys Cynaliadwyedd yn rhaglen yr Academïau a gweithgareddau PAWB | Cyfarwyddwr Academi/Pennaeth PAWB | Parhaus |

**DOLENNI DEFNYDDIOL**

- https://wearealbert.org/production-handbook/top-tips-for-all/
- https://www.groundwork.org.uk/hubs/southwales/greendragon/
- https://www.edensprings.co.uk/about/corporate-social-responsibility
- https://www.cardiff.ac.uk/sustainable-places/research/projects/regrow-borneo
- https://carbonliteracy.com/
- https://theatregreenbook.com/
- https://www.carbontrust.com/our-work-and-impact/guides-reports-and-tools/green-events-guide
- https://www.llyw.cymru/cynhyrchion-plastig-untro-canllawiau-statudol